

TUDALEN 55

Cofnodion cyfarfod **Cyngor y Ddinas** o bell, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 13 Rhagfyr 2021** am 6.30pm.

YN BRESENNOL: - Y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts (Cadeirydd)

Cynghorwyr : Les Day, Medwyn Hughes, Elin Walker Jones (gadwodd y cyfarfod am 8.13pm), Huw Wyn Jones (gadawodd y cyfarfod am 6.55pm), John Wynn Jones, Kieran Jones, John Martin (gadawodd y cyfarfod am 7.48pm), Enid Parry, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, George Turner, John Wyn Williams (ymunodd â'r cyfarfod am 6.41pm)

Swyddogion:- Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion)

213/21 YMDDIHEURIADAU

Eu Teilyngdod y Maer, Cyng Owen Hurcum, Cynghorwyr Huw Wyn Jones, Mair Rowlands, Luke Tugwell

214/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Ni chymerodd y Cyng John Wynn Jones ran yn eitem agenda 222/21 CYNIGION CYMORTH ARIANNOL: EISTEDDFOD YR URDD 2022, PAPUR GORIAD.

215/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dr Glynne Roberts ar gyfer eitem 218/21 yn unig.

216/21 CYHOEDDIADAU

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y ffaith mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyfarwyddwr Dinesig. Diolchodd i Iwan Williams am ei waith caled a dywedodd fod pawb yn ddiolchgar am yr hyn yr oedd wedi'i gyflawni, a'i bod wedi bod yn bleser gweithio gydag ef. Roedd pawb yn flin i'w weld yn gadael. Gan fod y Maer yn absennol yn y cyfarfod, roedd ef hefyd wedi ysgrifennu nodyn i ddiolch.

Ni chafwyd ymateb i'r hysbyseb am Glerc dros dro. Byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen staffio yn cyfarfod yr wythnos hon i drafod y mater.

217/21 COFNODION

a) Pwyllgor Cynllunio – 6 Medi 2021- Cadarnhau fel cofnod cywir

CYMERADWYWYD

b) Cyngor – 6 Medi 2021- Cadarnhau fel cofnod cywir

CYMERADWYWYD

c) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 27 Medi 2021 – Cadarnhau fel cofnod cywir

CYMERADWYWYD

d) Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid – 18 Hydref 2021 – Cadarnhau fel cofnod cywir

CYMERADWYWYD

e) Cyfarfod Eithriadol o'r Cyngor – 15 Tachwedd 2021 Cadarnhau fel cofnod cywir

CYMERADWYWYD

f) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 22 Tachwedd 2021 – Cadarnhau fel cofnod

cywir CYMERADWYWYD

g) Is-Bwyllgor Nantporth – 6 Rhagfyr 2021 – Cadarnhau fel cofnod cywir

CYMERADWYWYD

TUDALEN 56

218/21 CYDWEITHIO GYDA BWYD DA BANGOR: TRAFODAETH

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Glynne Roberts, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar y cynllun hwn. Mae ef yn aelod o'r grŵp llywio ers y dechrau. Eglurodd fod y cynllun yn Bartneriaeth rhwng Penrhyn House, BIPBC, Cyngor Gwynedd, Adra, Tai Gogledd Cymru, Coleg Menai a Phrifysgol Bangor. Roedd Cyngor y Ddinas yn cael ei gynrychioli ar y grŵp llywio hefyd. Roedd y gwaith paratoi wedi bod yn mynd rhagddo ers 3-4 mlynedd. Roedd y cynllun yn cael ei arwain gan Penrhyn House, ac roedd wedi esblygu o'r syniad o gael canolfan ddydd i'r digartref i greu caffi hyfforddi i bobl oedd yn dod allan o ddigartrefedd neu wedi dod dros gaethiwed i gyffuriau/alcohol drwy raglen adferiad Penrhyn House. Yn ogystal â dod â phobl yn ôl i waith, mae hwn yn gynllun amgylcheddol hefyd sy'n helpu i fynd i'r afael â gwastraff bwyd. Caiff bwyd sydd dros ben gan yr archfarchnadoedd ei ailddosbarthu, ac mae pwyslais hefyd ar ddefnyddio cynnyrch lleol.

Bydd y rhai sy'n cael eu hyfforddi yn y caffi yn gallu mynd ymlaen wedyn i wneud prentisiaethau a chymwysterau NVQ yng Ngholeg Menai. Byddant yn cael blas ar bob agwedd o'r gwaith a hynny dan oruchwyliaeth mewn lle maent yn teimlo'n gyffyrddus ynddo.

Pwysleisiodd Dr Glynne fod hwn yn safle gwych ger y cloc ym Mangor ac er mai'r nod yw cynnig cyfleoedd gwaith i'r rheiny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad waith, nod y caffi yw darparu bwyd o safon uchel bob amser, fel ei fod yn fwyty o ddewis i bawb.

Llongyfarchwyd Dr Glynne ar y fenter ac roedd yr aelodau oedd eisoes wedi bod yn Bwyd Da Bangor yn canmol y bwyd a'r gwasanaeth. Gofynnwyd sut gall Cyngor y Ddinas helpu'r cynllun. Atebodd Dr Glynne y gallai'r Cyngor helpu drwy farchnata'r caffi ar unrhyw ddeunydd hyrwyddo. Gallent hefyd ddefnyddio'u dylanwad pe bai unrhyw broblemau yn codi o amgylch y caffi, ac roedd eu cymorth i gael gwared â'r blychau ffôn y tu allan wedi bod yn werth chweil.

Holodd rhai cynghorwyr a ellid ymestyn y cynllun i helpu pobl ifanc ag anghenion arbennig, e.e. y rheiny ar y sbectrwm awtistig. Dywedwyd fod angen gweld gyntaf sut mae'r ddau set o bobl sy'n gweithio yno yn dod ymlaen. Cytunodd y Cynghorwyr Pickavance ac Elin Walker Jones i siarad â Chyngor Gwynedd am y posibilrwydd o gynlluniau eraill i'r bobl ifanc hyn y mae mynediad i lefydd gwaith arferol yn anodd iddynt.

Er bod y caffi yn creu incwm, bydd bob amser yn chwilio am incwm ychwanegol, ac eto byddai croeso i gyfraniadau gan y Cyngor.

219/21 ASEDAU'R CYNGOR: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Roedd papur wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod. Un newid – dyddiad ymddangosiad Wynne 'Elvis' Roberts ar y Pier yw'r 22 Rhagfyr, nid yr 21ain. Roedd rhai eitemau angen cymeradwyaeth y Cyngor:

(i) Cais gan aelod o'r cyhoedd i blannu cennin Pedr yng nghaeau Ashley Jones-
CYMERADWYWYD

(ii) Taliad ychwanegol i dechnegwyr allanol y Cyngor am agor a chau'r Pier rhwng 27-31
Rhagfyr gan fod hynny yn ystod eu gwyliau - CYMERADWYWYD

(iii) Ychwanegu'r maes chwarae i les Bwyty'r Pier: gwaredu'r hen offer chware, rhoi'r
hyblygrwydd i'r perchnogion newydd osod byrddau, a chiosg i werthu diodydd/hufen iâ,
tynnu'r cyfrifoldeb am yr ased oddi ar y Cyngor.

Cafwyd trafodaeth am y cynnig hwn:

TUDALEN 57

Roedd yr aelodau'n flin i weld y lle chwarae yn diflannu, ond roedd rhai'n cydnabod fod yr offer mewn cyflwr gwael ac y byddai'n faich ar y Cyngor. Awgrymwyd rhai syniadau o ran cael lle chwarae arall ger y Pier.

Dymunai'r Cyng Pickavance fynegi ei wrthwynebiad cryf i'r cynnig hwn. Roedd yn fodlon trosglwyddo'r ardal y tu allan ond ddim am golli lle chwarae arall. Teimlai y byddai'r cyhoedd yn anfodlon iawn pe bai'r cyfleuster yn mynd. Os mai problem cynnal a chadw yw hi, yna dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r broblem.

Roedd y Cyng Parry hefyd yn dymuno i'w gwrthwynebiad gael ei nodi, teimlai'n gryf y dylai'r lle chwarae aros lle y mae.

Codwyd cwestiwn am delerau trosglwyddo'r les o safbwynt y ffaith y byddai'r perchnogion newydd yn ennill tir ychwanegol.

PENDERFYNWYD gwrthod y cynnig felly mae nes bod yr aelodau'n fodlon â thelerau'r les.

220/21 GOSOD GOLEUADAU NADOLIG: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod trafodaethau manwl wedi digwydd dros sawl mis rhyngddo ef, y Maer a Bangor yn Gyntaf am y goleuadau Nadolig. Cytunwyd y byddai'r goleuadau yn ymestyn i Fangor Uchaf eleni. Byddai Cyngor y Ddinas yn talu hanner y gost a Bangor yn Gyntaf yn cyfrannu'r hanner arall. Gallai gweithwyr y Cyngor osod y rhai ar y Stryd Fawr a byddai contractwr allanol yn gosod y gweddill. Fodd bynnag, roedd Bangor yn Gyntaf wedi tynnu allan o'r prosiect ar y funud olaf, ar ddiwedd mis Tachwedd, fis ar ôl cytuno ar gytundeb â'r cwmni goleuadau. O ganlyniad, roedd y Maer wedi ysgrifennu at Bangor yn Gyntaf i fynegi siom y Cyngor, a gofyn iddyn nhw dalu hanner y costau, fel y cytunwyd o'r dechrau.

221/21 CAIS GRANT CREU LLEOEDD LLYWODRAETH CYMRU: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y cais yn mynd yn ei flaen. Swyddog Prosiectau'r Cyngor fydd yn arwain arno o hyn ymlaen a bydd yn gweithio gyda chyn was sifil yn Llywodraeth Cymru. Bydd angen i'r arian i wella canol y ddinas, cais am £50k, gael ei wario erbyn diwedd Mawrth. Mae angen sefydlu tîm rheoli prosiect bach i gadw llygad ar y datblygiadau, a gwahoddwyd mynegiannau o ddiddordeb gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD y byddai'r aelodau canlynol yn ymuno â'r tîm: Cynghorwyr Medwyn Hughes, Enid Parry, Nigel Pickavance, Gareth Roberts.

222/21 CEISIADAU AM GEFNOGAETH ARIANNOL: EISTEDDFOD YR URDD 2022, PAPUR GORIAD

Gadawodd y Cyng John Wynn Jones y cyfarfod yn y fan hon.

Dyweddodd yr aelodau fod yr eitem hon yn cael ei thrafod fel arfer yng nghyfarfod mis Ionawr. Roeddent yn teimlo fod diffyg canllawiau i helpu gyda'r trafodaethau e.e. faint i gyfrannu, gosod trothwy, pwy sy'n gymwys. Roedd canllawiau wedi'u sefydlu yn y gorffennol.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem hon i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid ar 24 Ionawr. Hefyd ceisio dod o hyd i'r canllawiau a'u dosbarthu cyn y cyfarfod.

TUDALEN 58

223/21 SEFYDLIAD CYMUNEDOL CYMRU: CYNNIG CYFRIFON ELUSENNOL CYNGOR DINAS BANGOR

Mae gan y Cyngor ddau gyfrif eithaf hen, y naill yw Cronfa *Bangor Community Service Fund* a'r llall yw'r Gronfa *Welcome Home*. Roedd yr ail wedi'u sefydlu ar gyfer milwyr oedd y dychwelyd i Fangor o'r ddau Ryfel Byd. Gan nad oedd yr arian yn cael ei ddefnyddio mwyach, roedd y Comisiwn Elusennau wedi bod yn holi amdanyn nhw. Eu hawgrym nhw oedd bod y Cyngor yn gweithio gyda Sefydliad Cymunedol Cymru a all roi cyngor am ddefnyddio'r cronfeydd at ddibenion gwahanol. Byddai'n rhaid i'r arian gael ei ddefnyddio er budd pobl Bangor, nid gwaith y Cyngor. Byddai'r Sefydliad yn gofyn am 10% o'r cronfeydd, a hefyd ffi reoli flynyddol.

PENDERFYNWYD peidio â defnyddio'r Sefydliad ond llunio strategaeth ar gyfer delio â hyn a'r Cyngor i wario'r arian yn uniongyrchol. Soniodd yr aelodau y gellid defnyddio'r gronfa *Welcome Home* i helpu cyn-filwyr ym Mangor, a gallai hefyd helpu gwaith y Llang Brydeinig Frenhinol. Y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid i drafod ymhellach.

224/21 ANFONEBAU I'W TALU A MATERION ARIANNOL: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG.

CYMERADWYWYD talu anfonebau oedd yn dod i gyfanswm o £58,722. Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig mai'r rheswm dros y cyfanswm tipyn uwch nag arfer oedd bod prosiect *Linkspan* y Pier wedi'i gwblhau erbyn hyn a'r anfoneb wedi'i thalu.

225/21 SUL Y COFIO A DIGWYDDIADAU DINESIG: TRAFODAETH

Roedd rhai aelodau a fu'n bresennol yn achlysur Sul y Cofio wedi bod yn anhapus â'r diffyg trefn a'r methiant i ddilyn protocol ar y diwrnod. Ers hynny, cafwyd cyfarfod gydag Is-Ddeon y Gadeirlan a gwnaed awgrymiadau ar gyfer y dyfodol.

Teimlai'r aelodau fod angen eglurder ar ochr seremonïol y Cyngor. Awgrymwyd sefydlu is-grŵp a fyddai'n ystyried digwyddiadau fel Sul y Cofio a materion defodol eraill, e.e. rôl cludwr y byrlysg. Cyflwynodd y Cynghorwyr Medwyn Hughes a Les Day eu henwau i'r is-grŵp hwn a fyddai hefyd yn cynnwys cyrff eraill, ac o bosibl aelodau o'r cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 pm

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG